*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1664 (Cy.214)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) (Diwygio) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *27 Mehefin 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *2 Gorffennaf 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a freiniwyd ynddynt hwy(**1**) gan adrannau 121(5) a 122(3) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) (Diwygio) 2012 a daw i rym ar 2 Gorffennaf 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005**

**2.** Yn yr Atodlen i Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005(**3**), hepgorer y geiriau "Cyngor Sir y Fflint".

**Dirymu**

**3.** Mae erthygl 6 o Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005 wedi ei dirymu.

(**1**) Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5) yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 2004 p.5.

(**3**) O.S. 2005/2722 (Cy.193), a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/842 (Cy.77), 2006/1700 (Cy.162), 2006/3119 (Cy.289), 2007/546 (Cy.48), 2007/1023 (Cy.92), 2007/2371 (Cy.194), 2007/2447 (Cy.203), 2007/2449 (Cy.205), 2008/10 (Cy.4), 2008/2162 (Cy.192), 2009/2645 (Cy.217), 2010/2002 (Cy.188) a 2011/101 (Cy.21).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Rosemary Thomas*
Prif Gynllunydd/Dirprwy Gyfarwyddwr o dan awdurdod Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru

27 Mehefin 2012

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirwyn i ben y trefniadau trosiannol a wnaed o dan Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2005 ("Gorchymyn Rhif 4") mewn perthynas â Chyngor Sir y Fflint ("y Cyngor").

O dan y trefniadau hynny, mae pob awdurdod cynllunio lleol a restrir yn yr Atodlen i Orchymyn Rhif 4 yn gallu parhau â'r broses sy'n arwain yn y pen draw at fabwysiadu ei gynllun datblygu unedol o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn hytrach na gorfod dechrau ar y gwaith o baratoi cynllun datblygu lleol o dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

Mae'r Gorchymyn hwn yn tynnu'r Cyngor oddi ar yr Atodlen i Orchymyn Rhif 4 ac felly'n gosod y Cyngor o dan ddyletswydd i baratoi cynllun datblygu lleol ar gyfer ei ardal.

Mae erthygl 6 o Orchymyn Rhif 4 wedi ei dirymu oherwydd bod pob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru bellach wedi rhoi hysbysiad o'i fwriad i beidio ag arfer ei bwerau o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu) 1991 (O.S. 1991/2794) mwyach.